



# Newyddlen Menter Iaith Môn

Rhifyn Gaeaf 2010  
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd  
Dda!

iaith@mentermon.com  
01248 725 700  
www.menteriaithmon.com

## Y GYMRAEG—IAITH BYWYD A GWAITH

### CAEL GWYBODAETH

Os hoffech chi gael eich cynnwys ar restr bostio Menter Iaith Môn, ebostiwch eich manylion at iaith@mentermon.com ac fe wnawn ni eich ebostio gyda gwybodaeth am bethau sydd ymlaen yn rheolaidd!



Mae'r Fenter Iaith wedi bod yn gweithio gyda plant a phobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn hyrwyddo manteision addysg Gymraeg. Fe fydd y Fenter yn bresennol mewn nosweithiau rhieni a nosweithiau agored i drafod unrhyw bryderon a rhoi arweiniad.

Dyma ychydig bwyntiau i'ch atgoffa:

- Mae plant sy'n siarad dwy iaith ar y blaen wrth ddarllen a chyfri
- Mae 40% o weithleoedd yn gofyn



am sgiliau dwyieithog

- Mae 2/3 o bobl y byd yn siarad dwy iaith
- Mae pobl sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn ennill rhwng 8-10% mwy ar gyfartaledd
- Mae dysgu ail iaith yn gwella iaith gyntaf y plentyn

Gall dwyieithrwydd wella y gallu i feddwl.

Mae disgyblion sydd yn sefyll TGAU Gwyddoniaeth a Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud crystal os nad yn well na disgyblion sy'n astudio'r pynciau drwy gyfrwng y Saesneg.



Ymunwch â'r Fenter  
Iaith ar facebook

facebook.com/  
menteriaithmon



### PANED A SGWRS



Yr ail ddydd Mawrth yn y mis

**Menter Môn, Llangefni**

12.30-1.30pm

Yr ail ddydd Mercher yn y mis

**Jwmpin Jacs, Caergybi**

4-5pm

Yr ail ddydd Iau yn y mis ,

**Castle Bakery, Porthaethwy**

10.30-11.30am

### Tecwyn Ifan

a chystadleuaeth

**Sion a Sian**

yng nghwmni

**Owen Corwas**

Nos Sadwrn

29ain Ionawr

yn **Cartio Môn**, Bryngwran

**7:30pm**

**Tocynnau £6**

## TAITH I RHOSGADFAN

Aeth llond bws o Gymry Cymraeg a Dysgwyr draw i Rosgadfan ganol Tachwedd er mwyn ymweld â chanolfan “Brenhines ein Llên”, Kate Roberts.

Cawsant eu tywys i fyny'r lôn wen enwog gan Gadeirydd Canolfan Cae Gors, Dewi Tomos, a chlywed darlenniadau o waith yr awdures ar y ffordd.

Wedi cinio a seibiant dros banded yn y ganolfan, dyna gael cyfle i ymweld â Chae Gors ei hun, wedi ei ail-greu yn arddull y cyfnod yr oedd Kate Roberts yn byw yno.

Cafodd pawb hwyl fawr ar y daith, a chyfle i sgwrsio yn ddi-baid am hyn a llall, i gyd drwy'r Gymraeg, wrth gwrs!

Hoffai Menter Iaith Môn ddiolch i Academi am gyd-drefnu'r wibdaith ac i'r Academi ac Adran Dysgu Gydol Oes Prifysgol Bangor am gyfrannu at y costau.

Bwriedir trefnu taith debyg yn fuan!



## GWAU GEIRIAU



Amser i sgwrsio dros banded!

Dewch ag unrhyw waith llaw neu dewch am banded

**CAFFI MILANO, FALI**

**10:30-11:30**

Dydd Mercher 1af bob mis

## CLOD IAITH

## GWOBRWYO CLYBIAU CHWARAEON

Gwobrwywyd 6 clwb chwaraeon am eu defnydd o'r Gymraeg gan Colin Jackson yn ystod Gwyl Redeg Môn ym mis Medi eleni.

Roedd y clybiau wedi cyrraedd safonau efydd, arian neu aur yn y marc safon.

Mae o fantais mawr i glybiau gynnig gwasanaeth a darpariaeth ddwyieithog i'ch aelodau—mae'n

rhoi dewis iaith i'ch aelodau, yn dangos eich bod yn falch o fod yn gweithio ym Môn, ac yn eich rhoi ar y blaen wrth gystadlu am aelodau eraill!

Dyma Glwb Criced Bodedern, Clwb Rygbi Llangefni, Clwb Jiwdo Pellennig, Môn Independents, Clwb Peldroed Llangefni a Chlwb Bowlio Llanfairpwll.



Yr enillwyr gyda Colin Jackson



## THEATR IEUENCTID MÔN

Mae tymor cyntaf TIM eleni wedi bod yn gyfnod o newidiadau mawr. Rydym wedi cael tiwtoriaid newydd, aelodau newydd ac efallai yn y dyfodol y bydd gennym leoliadau newydd.

Rwy'n sicr bod nifer ohonoch wedi gweld Mared Huws sydd yn diwtor yn TIM Mawr, TIM Llangefni a TIM Amlwch yn perfformio yng nghynhyrchiad diweddaraf Bara Caws (100) ar hyd a lled Cymru. Doedd Mared ddim ar gael i weithio i TIM tra roedd '100' ar daith ond fe fydd hi'n braf

ei chael hi'n ôl cyn y Nadolig ac rwy'n siŵr y bydd blant a phobl ifanc TIM yn elwa o'i phrofiad o weithio gyda'r cwmni.

Fe gafodd aelodau TIM Mawr wahoddiad i berfformio yn noson lansio prosiect 'Llwyddo'n Lleol' yn ddiweddar. Cafwyd perfformiad llawn hwyl gan y criw ac mae canmol mawr wedi bod. Diolch i Manon a Cerian am weithio mor galed ar y perfformiad. Yn ystod yr hanner tymor fe fu rhai o aelodau TIM Mawr yn ffilmio ar gyfer DVD sydd yn adrodd hanes Ynys Môn. Roedd hyn yn brofiad newydd i

nifer ac unwaith eto fe gafwyd canmoli-aeth uchel am eu cyfraniad nhw. Fe fydd y flywyddyn newydd unwaith eto yn gyfnod prysur i TIM Mawr a Bach gyda'r gwaith o baratoi at y sioe fawr flynyddol yn dechrau.

Braf ydy cael dweud fod TIM yn mynd o nerth i nerth. Bellach mae gan nifer o leoliadau TIM restr aros ar gyfer aelodau newydd. Wedi dweud hynny mae nifer cyfyngedig o lefydd ar ôl mewn rhai lleoliadau felly os oes gynnuch diddordeb cysylltwch â Dewi Snelson.

## HYSBYSEBU

Mae gwefan Menter Iaith Môn yn gweithredu fel siop un stop i ddigwyddiadau Cymraeg a dwyieithog ym Môn.

Byddwn yn hysbysebu'ch digwyddiad yn ddi-dâl, a gobeithio y bydd pobl leol yn edrych ar y wefan wrth chwilio am ddigwyddiad yn lleol.

Cewch hysbysebu unrhyw ddigwyddiad boed yn gyngerdd ysgol, capel neu'n daith gerdded - unrhyw beth os oes croeso i bobl ymuno yn y gweithgaredd! Anfonwch eich manylion atom neu ffônïwch ni.

## GWLAD BEIRDD!

Clwb Rygbi Llangefni oedd y lleoliad annisgwyl i weithdy drama i bobol ifanc bwyddyn 9 yr ynys ganol Tachwedd.

Daeth criw ynghyd i daclo'r busnes barddoni efo'r Prifardd Meirion McIntyre Huws, a chael tipyn o hwyl wrth wneud.

"Mae modd cael hwyl yn chwarae efo geiria mewn barddoniaeth, a chreu rhywbeth cwl wrth wneud!" meddai un o'r beirdd ifanc.

Diolch i Academi am eu cefnogaeth ariannol i gynnal y digwyddiad.



## RHANNU RHIGWM

Mae sesiynau rhannu rhigwm yn digwydd mewn llyfrgelloedd ar draws Ynys Môn. Croeso i rieni a phlant bach dan rhyw bedair oed i ddod i ganu a chael stori mewn awyrgylch braf.

Ymunwch efo ni:

Dydd Llun-Llyfrgell Biwmaes 9.30-10.30

Dydd Mawrth-Llyfrgell Amlwch 10-10.30

Dydd Iau-Llyfrgell Caergybi 1.30 tan 2.30

## CREU CERDDORIAETH

Ydych chi'n hoffi cerddoriaeth?

Isio dysgu sut mae cyfansoddi cerddoriaeth neu chwarae offeryn newydd?

Mae Bocsŵn yn brosiect creu cerddoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc o 7 hyd at 18 oed. Fe all ein tiworiaid gynnig gwersi offerynnol un i un, neu os ydych chi'n rhan o fand ac eisïau lle i ymarfer, eisïau help i wella, ac yna recordio eich gwaith yn ein

stiwio, dyma'r lle i chi.

Os nad ydych chi am chwarae offerynnau, beth am ddysgu defnyddio ein cyfrifiaduron i greu cerddoriaeth? Dysgwch sut i ychwanegu effeithiau sain, cymysgu a recordio a chael eich achredu am gyrraedd y safon!



## Na i doriadau S4C

**CLICIWCH Y LINC ISOD I ARWYDDO'R DDEISEB YN ERBYN Y TORIADAU I S4C**

<http://deiseb.cymdeithas.org/>



**Ydych chi eisïau cyfieithu ar y pryd i'ch grŵp cymunedol / gwirfoddol?**

**7.00 – 9:00p.m.**

yn dechrau nos Iau 20fed Ionawr, 2011 am 5 wythnos

o dan arweiniad Megan Hughes Tomos

Cwrs **rhad ac am ddim** i BAWB

**RHAID ARCHEBU erbyn y 14eg o Ionawr**

Ffônïwch 01248 363943 neu e-bostiwch : [mon@fc.harlech.ac.uk](mailto:mon@fc.harlech.ac.uk) i ddangos diddordeb, neu ffônïwch y Fenter Iaith

## CYFIEITHU AR Y PRYD



# Menter Iaith Môn NEWSLETTER

Winter 2010  
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd  
Dda!

iaith@mentermon.com  
01248 725 700  
www.menteriaithmon.com

## WELSH – GET ON IN THE WORLD

### Receiving Information

If you would like to be included on Menter Iaith Môn's mailing list, email your details to iaith@mentermon.com and we will email you with information about Welsh and bilingual events as well as opportunities for learners to take part.



The Menter Iaith has worked closely with children, young people and their families to promote the benefits of Welsh education. The Menter Iaith will be present in open evenings and parents evenings to discuss any concerns and to provide guidance.

Here are a few points to remind you:


- ◆ Children who speak two languages are ahead with reading and maths



- ◆ 40% of work places ask for bilingual skills
- ◆ 2/3 of the world's population speak two languages every day
- ◆ People who speak Welsh and English earn on average between 8-10% more
- ◆ Learning a second language improves

the child's first language.

- ◆ Bilingualism can improve thinking ability
- ◆ Exam results in Science and Maths are on average better within Welsh medium education.



Join Menter Iaith Môn on Facebook

facebook.com/  
menteriaithmon



### PANED A SGWRS



Second Tuesday every month

**Menter Môn, Llangefni**

12.30-1.30pm

Second Wednesday every month

**Jwmpin Jacs, Caergybi**

4-5pm

Second Thursday every month

**Castle Bakery Porthaethwy**

10:30-11:30

### Tecwyn Ifan

a chystadleuaeth/competition

**Sion a Sian**

yng nghwmni /with

**Owen Corwas**

Nos Sadwrn/Saturday

29ain Ionawr/January

yn **Cartio Môn**, Bryngwran

**7:30pm**

## TRIP TO RHOSGADFAN

Menter Iaith Môn arranged a special trip to Rhosgadfan mid November to visit the Kate Roberts visitor centre. The trip was arranged for Welsh learners to help practise their Welsh speaking skills.

Kate Roberts was one of Wales' most renowned authors, journalist, and nationalist and is regarded as the 'Queen of Welsh literature.'

We were taken up the famous lôn wen by Dewi Tomos, Chairman on the Cae Gors Centre, and heard readings of the author's work on the way.

After lunch in the centre, we visited Cae Gors itself, which has been recreated to

show us how Kate Roberts would have lived. Everyone enjoyed the visit - as well as the opportunity to chat in Welsh!

Menter Iaith Môn would like to thank the Academi for helping us to arrange the visit, and to the Academi and at the Bangor University for contributing towards the cost.



## GWAU GEIRIAU



Amser i sgwrsio dros baned!

Dewch ag unrhyw waith llaw neu dewch am baned

**CAFFI MILANO, FALI**

Dydd Mercher 1af bob mis

**10:30-11:30am**

## CLODIAITH

## AWARDING SPORTS CLUBS

Colin Jackson awarded 6 Ynys Môn sports clubs for their use of Welsh during this year's Running Festival.

The clubs had achieved a gold, silver or bronze standard in the quality mark.

It is of great advantage for you as clubs to offer bilingual services and provisions for your members- it enables participants to enjoy in their language of choice, shows that you are proud to be working in Ynys Môn –

and sets you apart as you compete for other members!

If your club would like to apply for the Clodiaith Quality Mark, or you would like help to increase your use of Welsh – contact us!



**The winners with Colin Jackson**



## THEATR IEUENCTID MÔN

TIM's first term this year has been a period of change – we have welcomed new tutors, new members and there may be new locations in the near future.

Many of you may have seen Mared Huws, who is a tutor in TIM Mawr, TIM Llangefni and TIM Amlwch performing in the latest production staged by Theatr Bara Caws (100) in many parts of Wales. Mared was not available to work for TIM while '100' was touring, but we look forward to welcoming her back before

Christmas, and we are sure that TIM members will benefit from her experience of working for the company.

TIM Mawr was recently invited to perform in the launch night for Llwyddo'n Lleol in Cartio Môn mid November. The cast staged a fun and energetic performance and received acclaim for their work. Thank you to Manon and Cerian for working hard on the performance. During half term some TIM Mawr members filmed scenes for a DVD which narrates the history of Ynys Môn. This was

a new experience for many, and again the members were praised for their contribution. The new year will again be a busy time for Tim Mawr and Bach with preparations being made for the annual show case.

It is nice to report that TIM is going from strength to strength. Most TIM groups have a waiting list for new members, but there are some limited spaces available in some locations. Contact Dewi Snelson if you are interested.

## ADVERTISING

Menter Iaith Môn's website will be operating as a one stop shop for Welsh and bilingual events in Ynys Môn. We will advertise your event free of charge and we hope that local people will also look at the website to find out what's on in their local area.

We will advertise any event that is open to everyone to join in!

Send us the details of your event, or phone us.

## FUTURE POETS

Llangefni Rugby Club was the unlikely location for a poetry workshop for young people at the end of November.

Chaired bard Meirion McIntyre Huws took on the challenge to help them create their own verses on the theme of Anglesey.

The "playing with poetry" session got the young people from year 9 secondary schools to have fun passing words to and fro.

It was a great chance to realise that messing about with words can be an inspiring and enjoyable process. Academi part-funded the event.



## RHANNU RHIGWM

**Rhannu Rhigwm** sessions are held in libraries across Ynys Môn. Parents and children under four are welcome to come along to sing and listen to a story in a safe, fun environment.

Sessions are held in Welsh—a great opportunity to practise with your little one!

Monday – Beaumaris Library 9.30-10.30  
Tuesday – Amlwch Library 10-10.30  
Thursday – Holyhead Library 1.30-2.30

## MUSIC MAKING WORKSHOPS

### Do you enjoy music?

Want to learn how to compose or learn a new instrument?

Bocsŵn is a project delivering music making workshops for children and young people between 7 and 18 years old.

Our tutors offer one to one musical instrument tuition, or if you are part of a band and want to practise, help to improve and record

your work in our studio, Bocsŵn is the place for you.

You can also use our computers to create and compose your own work – learn how to add sound effects, mix and record – and you may be able to gain an accreditation for your efforts.



## No to S4C cuts

**CLICK THE LINK BELOW TO SIGN THE PETITION AGAINST CUTS TO S4C**

<http://deiseb.cymdeithas.org/>



## CWRS CYFIEITHU AR Y PRYD

**Ydych chi eisiau cyfieithu ar y pryd i'ch grŵp cymunedol / gwirfoddol?**

**7.00 – 9:00p.m.**

yn dechrau nos Iau 20fed Ionawr, 2011 am

5 wythnos

o dan arweiniad Megan Hughes Tomos

Cwrs **rhad ac am ddim** i BAWB

**RHAID ARCHEBU *erbyn y 14eg o Ionawr***

Ffoniwch 01248 363943 neu e-bostiwch : [mon@fc.harlech.ac.uk](mailto:mon@fc.harlech.ac.uk) i ddangos diddordeb, neu ffoniwch y Fenter Iaith